



Cod Ymddygiad Diogelu– Agor y Llyfr (Cymru a Lloegr)

Disgwylir i storiwyr gwirfoddol gadw at y Cod Ymddygiad hwn.

Mae'n ofynnol i bob eglwys sicrhau bod pob un o'i Storiwyr yn cael eu recriwtio'n ddiogel fel gwirfoddolwyr cyn iddynt gychwyn yn y gwaith. Mae Storiwyr yn gymwys i dderbyn datgeliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (heb wirio rhestr y rhai sydd wedi'u gwahardd) fel rhan o'r broses o gael eu recriwtio gan eu heglwys(i) eu hunain.

I bwrpas y Cod hwn mae 'datgeliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd clir' yn golygu nad yw canlyniadau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn datgelu unrhyw wybodaeth a fyddai, ym marn yr eglwys sy'n ceisio'r gwiriad, yn gwneud yr unigolyn yn anaddas ar gyfer rôl Storiwr.

Ni ddylai'r Storiwr unigol gael ei adael ar ei ben ei hun gyda phlant. Dylai staff yr ysgol fod yn bresennol bob amser ym mhob cynulliad / gweithred o addoli ar y cyd.

Ym mhob ysgol gynradd bydd unigolyn, yn aml y pennaeth, yn gyfrifol am ddiogelwch o fewn yr ysgol. Yr enw a roddir ar y swyddog hwn yw Arweinydd Diogelu Dynodedig (Lloegr) neu Uwch-berson Diogelu Dynodedig (Cymru). Dylai pob Storiwr wybod pwy yw'r unigolyn hwn. Dylai Arweinwyr Timau Agor y Llyfr dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am Bolisi Diogelu a gweithdrefnau'r ysgol, a dylid rhannu'r wybodaeth gyda'r Storiwyr. Dylai'r diweddariad gynnwys:

- Sut i weithredu pan ar safle'r ysgol fel tîm adrodd stori e.e. y drefn sydd wedi'i chytuno o ran sut i gasglu'r plant ac ymarfer gyda hwy er mwyn iddynt fod yn rhan o'r cynulliad / gweithred o addoli ar y cyd.
- Y weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw bryderon am blant unigol
- Y weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw ymddygiad anaddas gan Storiwyr
- Y weithdrefn ar gyfer rhoi wybod am unrhyw ddigwyddiad oddi allan i safle'r ysgol
- Ac unrhyw beth arall y mae Swyddog Diogelu yr ysgol yn teimlo sy'n briodol er mwyn diogelu pawb.

Bydd Agor y Llyfr yn gwneud popeth o fewn ei allu i annog arferion da o ran ymddygiad pan ym mhresenoldeb plant, trwy ein gohebiaeth ysgrifenedig, hyfforddiant a gweithdai dilynol.

Bydd rhai esgobaethau, sefydliadau eglwysig a Gwasanaethau Cymdeithasol yn trefnu cyrsiau Diogelu neu ddyddiau hyfforddi. Gall ysgolion hefyd drefnu rhain ar gyfer eu gwirfoddolwyr. Yr ydym yn annog pob Storiwr i holi am y rhain ac i fynychu pryd bynnag mae'n bosibl. Anogir timau newydd i dderbyn hyfforddiant cychwynol drwy hyfforddwyr cydnabyddedig. Dylai Arweinwyr Timau Newydd gysylltu ag Agor y Llyfr i gael cymorth a chynghor. Bydd hyfforddiant ar gyfer timau sydd eisoes yn bod yn cynnwys Diogelu ac anogir timau sydd eisoes wedi'u sefydlu i fynychu hyfforddiant yn flynyddol. Yr ydym hefyd yn argymhell y dylai Storiwyr fynychu hyfforddiant Diogelu eu heglwys/enwad a sesiwn gyda Swyddog Diogelu Dynodedig yr ysgol.

Mae pob un sy'n gweithio gyda phlant neu sydd â chyswllt arwyddocaol â hwy ar ran yr eglwys mewn safle o ymddiriedaeth. Bydd y plant sydd mewn cysylltiad â hwy yn eu gweld fel patrymau ymddygiad, a hynny hyd yn oed pan nad ydynt 'wrth eu gwaith'. Dylai pob Storiwr, felly, ymddwyn yn unol â'r hyn a ddisgwylir yn rhesymol gan berson sy'n cynrychioli'r eglwys.

Canllawiau i storiwyr:

1. Rhaid trin pob plentyn a pherson ifanc gyda pharch ac urddas.
2. Rhaid rhannu unrhyw bryderon am blentyn gyda Swyddog Diogelu Dynodedig (Lloegr) / Uwch-berson Diogelu Dynodedig (Cymru) yr ysgol. Dylid rhannu unrhyw bryder am ymddygiad storiwr arall â Swyddog Diogelu'r Eglwys / Enwad perthnasol a rhoi gwybod i Reolwr Adnoddau Dynol Cymdeithas y Beibl.
3. Peidiwch byth â bod ar eich pen eich hun gyda phlentyn yn yr ysgol. Sicrhewch fod Storiwr arall neu aelod o'r staff gyda chi bob amser. Er enghraifft:
 - Peidiwch â chuddio o'r golwg ar eich pen eich hun gyda phlentyn hyd yn oed pan yn gwneud ymddangosiad annisgwyl mewn stori.
 - Peidiwch â chasglu plentyn ar eich pen eich hun o'r ystafell ddosbarth er mwyn ei hebrwng i'r neuadd ymgynnull.
 - Gwnewch yn siŵr fod unrhyw wisgoedd ar gyfer y plant yn rhai syml y gellir eu gwisgo dros eu gwisgoedd ysgol.
 - Arhoswch yng nghwmni eich tîm wrth symud o amgylch yr ysgol
 - Dylid defnyddio toiledau'r staff bob amser, ac nid toiledau'r plant ar unrhyw gyfrif
4. Sicrhewch fod eich iaith, tôn eich llais a'ch iaith gorfforol bob amser yn foneddigaidd.
5. Ni ddylid cael fawr ddim cysylltiad corfforol â phlant yn ystod y cynulliad / gweithred o addoli ar y cyd
6. Mynnwch ganiatâd ymlaen llaw ar gyfer unrhyw ffotograffau / fideos.

Yr ydym yn ymwybodol fod plant weithiau'n chwilio am neu'n adnabod Storiwyr Agor y Llyfr y tu allan i'r ysgol. Cofiwch, nid eich lle chi yw ffurfio perthynas personol ag unrhyw blentyn. Dylid osgoi sgysiau hir, yn enwedig os nad oes oedolyn arall yn bresennol. Os bydd gennych bryderon difrifol am unrhyw blentyn, rhaid i chi eu atgyfeirio at Swyddog Diogelu yr ysgol yn syth. Os yw hyn yn digwydd y tu allan i oriau'r ysgol cysylltwch â

Swyddog Diogelu'r Eglwys neu'r Enwad perthnasol ar unwaith. Peidiwch â delio â hyn eich hun.

Lle bynnag y mae pryderon yn codi mewn perthynas â diogelwch plentyn neu ymddygiad Storiwr arall, dylid datgelu'r pryderon hyn gan gydymffurfio â'r ddeddf berthnasol ac yn unol â pholisiau diogelu'r ysgol a'r eglwys berthnasol a Chymdeithas y Beibl, ac nid mewn unrhyw fodd arall.

Lle mae hynny'n bosibl dylid parchu cyfrinachedd plentyn, ond mae'n bwysig fod Storiwyr yn gwerthfawrogi na ellir cadw at gyfrinachedd os oes pryderon am ddiogelwch a lles plentyn. Ni ddylid byth ganiatáu i bryderon ynghylch cyfrinachedd fod yn rhwystr rhag adrodd yn briodol am bryderon ynghylch lles plentyn.